



## Cod Ymddygiad CBDC Hyfforddwy, Rheolwy a Gwirfoddolwy

# Ydych chi ar yr ochr iawn?

Mae (enw'r clwb) yn cefnogi ymgyrch 'Tu ôl y Llinell, Tu ôl y Tîm' Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC) yn llawn ac yn cydnabod bod gan hyfforddwy a gwirfoddolwyr pêl-droed gyfle gwyh i fod yn ddylanwad cadarnhaol ar bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y gêm.

Mae bob un ohonom ni'n gyfrifol am sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â phêl-droed yn mwynhau profiad hwyliog, diogel a chadarnhaol.

A fydddech cystal â dangos eich cefnogaeth dros fesurau Diogelu CBDC drwy lofnodi'r datganiad isod. Drwy lofnodi'r Cod Ymddygiad hwn, rydych chi'n dangos eich bod yn deall yr amodau canlynol, a gallai torri'r rhain arwain at gamau disgyblu.

Mae disgwyl i hyfforddwy a gwirfoddolwy:

- Sicrhau diogelwch pob plentyn drwy oruchwylio yn effeithiol, cynllunio sesiynau hyfforddi ymlaen llaw a defnyddio dulliau diogel ar bob adeg.
- Cael gwiriad DBS bob 3 blynedd, neu fel sy'n ofynnol, a chyflwyno eu tystysgrif DBS i CBDC.
- Rhoi lles a diogelwch chwaraewyr uwch law datblygu perfformiad. Dylai lles plant ddod yn gyntaf bob tro.
- Ymddwyn yn rhagorol ar bob adeg, drwy barchu swyddogion gemau, gwrthwynebwy (chwaraewyr, rheolwy a hyfforddwy) a'r dorf.
- Annog ac arwain chwaraewyr i gymryd cyfrifoldeb am eu perfformiad a'u hymddygiad eu hunain.
- Trin pob chwaraewr yn gyfartal drwy gefnogi ac ysgogi pob un. Peidio â chael ffefrynau.
- Rhoi'r cyfle i bob chwaraewr, waeth beth yw ei allu, i chwarae.
- Annog pob plentyn i beidio â gwahaniaethu ar sail crefydd, hil, rhyw, dosbarth cymdeithasol neu ddiffyg gallu.
- Peidio â chaniatáu unrhyw chwarae garw neu beryglus, bwlio, neu'r defnydd o iaith anwedus neu ymddygiad amhriodol.
- Gwerthfawrogi ymdrechion yr holl chwaraewyr a pheidio â'u hyfforddi'n ormodol.
- Derbyn bod ymdrechu i ennill yn bwysicach na'r ennill ei hun.
- Ymdrechu i chwarae'n deg ar bob adeg – glynu at gyfreithiau ac ysbryd y gêm.
- Bod yn gadarnhaol, yn hawdd sgwrsio â chi a chynnig canmoliaeth i hyrwyddo amcanion y clwb ar bob adeg.
- Dangos safonau uchel, ymddwyn yn gyfrifol a pheidio byth â defnyddio neu ddiodef geiriau, ymddygiad neu ystumiau ffaidd, sarhaus, amharchus neu amhriodol.
- Aros y Tu ôl i'r Llinell a pheidio â chamu ar y cae chwarae heb ganiatâd ymlaen llaw gan y dyfarnwr.
- Peidio â gadael i gyhuddiadau o gam-drin o unrhyw fath neu arfer gwael fynd heb gael eu herio neu eu cofnodi. Mae'n rhaid cofnodi digwyddiadau a damweiniau yn unol â gweithdrefnau'r clwb ac mae'n rhaid rhoi gwybod i rieni.
- Peidio byth â defnyddio cosbau sy'n codi cywilydd ar chwaraewyr neu yn eu niweidio.
- Trefnu gweithgareddau sy'n addas i allu, oedran ac aeddfedrwydd chwaraewyr.
- Parchu a gwrando ar farn chwaraewyr.
- Peidio â phostio unrhyw beth amhriodol neu negyddol ar y cyfryngau cymdeithasu a allai ddwyn gwarth ar y gêm.
- Atal rhag ysmegu neu yfed alcohol yn ystod gweithgareddau'r clwb neu sesiynau hyfforddi.
- Bod yn ymwybodol o Bolisi, Gweithdrefnau ac Arferion Diogelu CBDC ac ymgymryd â'r cyfrifoldebau a amlinellir ynddynt, gan gynnwys canllawiau Cyfathrebu CBDC.
- Peidio â cham-drin aelodau yn gorfforol, emosiynol neu rywiol.
- Peidio â chael perthynas rywiol â pherson ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt.
- Sicrhau cyfrinachedd ynghylch gwybodaeth sensitif.
- Peidio â threulio cyfnodau gormodol ar eu pen eu hunain â'r plant, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.
- Peidio â rhoi cymorth cyntaf sy'n golygu dadwisgo plentyn, oni bai bod pobl eraill yn bresennol.
- Meddu ar gymwysterau ac yswiriant dilys.
- Sicrhau bod pêl-droed yn **hwyl**.

Enw: \_\_\_\_\_

Llofnod: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_